# Ysgol Talysarn

Talysarn
Caernarfon
Gwynedd
LL54 6HR
Ffon: 01286 880885
E.Bost – GlendaEvans@gwynedd.llyw.cymru

---

Pennaeth/Headteacher: Mrs. Glenda Evans B.A. (Anrhydedd)

---


**24.04.2020**

Annwyl rieni/warcheidwaid,

Gobeithio eich bod yn cadw'n iach ac yn ddiogel.

Fel y gwyddoch, rydym yn parhau i wynebu heriau yn sgil y coronafeirws ac felly ni fydd yr ysgol yn ail agor nes daw y canllawiau gan y Llywodraeth i ni allu gwneud hynny'n ddiogel. Yn y cyfamser, rydym yn parhau i agor fel ysgol sy'n darparu gofal i'r disgyblion hynny sy'n blant i weithwyr allweddol os nad oes posib iddynt dderbyn gofal yn y cartref.

Yn dilyn y llythyr a dderbynioch hefo canllawiau defnyddio Seesaw bydd yr athrawon yn rhoi amserlen o weithgareddau i'r plant weithio arnynt bob bythefnos ac yn rhoi anturiaethau a thasgau eraill yn wythnosol, bydd rhain ar SEESAW a hefyd ar wefan yr ysgol.
Bydd hyn yn cychwyn ar ddydd Llun, 27ain o Ebrill. Byddant yn gallu cyfathrebu yn uniongyrchol hefo'r plant yn unigol. Dim ond yr athrawon fydd yn gallu gweld tudalen eich plentyn a bydd yr athro yn gallu rhoi sylwadau personol yn gyfrinachol.

Os ydych yn cael trafferth gyda'r uchod cysylltwch gyda athrawon eich dosbarth ar y cyfeiriadau isod:
Blwyddyn 5a6 - jonesj3027@hwbcymru.net neu jonathanandrewjones@gwynedd.llyw.cymru

Blwyddyn 3 a 4 – HughesA271@hwbcymru.net neu
AnnaMadogHughes@gwynedd.llyw.cymru

Blwyddyn Derbyn, 1 a 2 EinirWynnEvans@gwynedd.llyw.cymru neu
NiaHughes@gwynedd.llyw.cymru

Meithrin FionaLynneDavies@gwynedd.llyw.cymru

Nid ydym am i unrhyw ddisgybl bryderu am ddim byd yn ystod y cyfnod anodd a heriol yma.
Byddwn yn rhoi galwad ffon i chi bob bythefnos i gael sgwrs bach ac i gynnig unrhyw gymorth.

Mae fy ebost innau ar dop y llythyr yma a byddaf ar gael i'ch cynorthwyo.

Cadwch yn saff a mwynhewch y tasgau rhyngweithiol.

ofion cynnes atoch i gyd

Mrs Glenda Evans